GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Paratoi ffurflen gais lwyddiannus wrth ymgeisio am swydd o fewn y GIG

**TREGYRFA**

**Bydd wych**

**Ydych chi am ddechrau'ch gyrfa? Ydych chi wedi graddio'n ddiweddar? Ydych chi'n barod am newid neu eisiau symud ymlaen? Ni waeth pa rôl neu ar ba gam o'ch gyrfa rydych chi, mae'r broses ymgeisio am swydd yn allweddol.**

Bydd y ddogfen ganlynol yn rhoi rhai awgrymiadau i chi ar sut i greu cais llwyddiannus.

## Chwilio am swyddi gwag

Mae swyddi gwag o fewn GIG Cymru yn cael eu hysbysebu ar wefan Swyddi'r GIG: https://www.jobs.nhs.uk/[1] a gwefan Trac: https://apps.trac.jobs/. Mae swyddi gwag hefyd yn cael eu hysbysebu ar wefannau byrddau iechyd lleol / ymddiriedolaethau – mae manylion y rhain i'w gweld yma.

Mae gan wefan Swyddi'r GIG a gwefanTrac opsiwn chwilio sy'n eich galluogi i fireinio eich chwiliad i rolau sy'n cyd-fynd â'r hyn rydych chi'n chwilio amdano. Mae rhai enghreifftiau o'r opsiwn chwilio yn cynnwys:

- geiriau allweddol – teitl y mathau o rolau rydych chi'n chwilio amdanynt
- lleoliad – rolau o fewn lleoliad neu radiws penodol
- gradd/cyflog – rolau a fydd yn creu'r incwm rydych chi'n dymuno ei gael .

## Dod o hyd i swydd

Yn rhan o bob hysbyseb swydd, mae disgrifiad swydd a manyleb person. Cyn gwneud cais mae'n bwysig darllen y wybodaeth hon yn ofalus, gwneud nodyn o'r dyddiad cau, edrych ar beth yw disgwyliadau'r rôl a hefyd gwneud rhywfaint o hunanfyfyrio, gan gymryd amser i ystyried:

- a ydych chi'n bodloni'r gofynion – meini prawf hanfodol a dymunol
- beth allwch chi ei gynnig i'r rôl – eich sgiliau, eich profiad a'ch gwerthoedd
- pam rydych chi eisiau'r rôl – meddwl y tu hwnt i'r teitl/cyflog, beth sydd wir o ddiddordeb i chi yn y rôl.

Mae gan bob swydd wag berson y gallwch gysylltu ag ef os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y rôl. Mae cysylltu yn cael ei ystyried yn arfer da gan y gall roi'r cyfle i chi gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r rôl yn ei gynnwys a'ch helpu i benderfynu a fyddai'r swydd yn gweddu i chi.

## Y broses ymgeisio

Caiff holl geisiadau am swyddi'r GIG eu cwblhau drwy Trac, porth ar-lein sy'n gyfrifol am reoli pob agwedd ar y broses recriwtio – o'r ffurflen gais i wiriadau cyn cyflogi. I ddechrau cais am swydd ar Trac bydd angen i chi greu cyfrif.

Mae cais am swydd y GIG yn cynnwys nifer o adrannau allweddol – ceir trosolwg o'r rhain isod.

Ac eithrio unrhyw gwestiynau cyn ymgeisio, mae'r system Trac yn rhoi'r hyblygrwydd i chi ddewis ym mha drefn yr hoffech lenwi'r ffurflen gais. Yn ogystal, mae'r system hefyd yn rhoi'r gallu i chi arbed eich cais a dychwelyd ato yn ôl yr angen.

[1] Bydd fersiwn newydd o wefan Swyddi'r GIG yn cael ei lansio'n fuan, ac mae hwn ar gael drwy'r ddolen ganlynol: https://beta.jobs.nhs.uk/.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

## Trosolwg o'r adrannau sy'n rhan o gais am swyddi o fewn y GIG

| | |
|---|---|
| 1. Cwestiynau cyn ymgeisio | Ar gyfer rhai rolau, mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau'r cwestiynau hyn cyn gallu bwrw ymlaen â gweddill y ffurflen gais. |
| 2. Statws hawl i weithio | Yr adran hon yw lle bydd yn ofynnol i chi ddatgan eich statws mewnfudo. |
| 3. Manylion personol | Yma byddwch yn cofnodi gwybodaeth gan gynnwys eich enw, manylion cyswllt, rhif Yswiriant Gwladol ac yn adolygu cwestiwn/cwestiynau Deddf Adsefydlu Troseddwyr (1974). |
| 4. Cymwysterau, hyfforddiant a hanes cyflogaeth | Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i chi ychwanegu eich cymwysterau a'ch hyfforddiant. Bydd angen i chi hefyd ychwanegu eich hanes cyflogaeth llawn, a chynnwys disgrifiad byr o bob rôl. |
| 5. Tystiolaeth ategol | Dyma'r datganiad personol. Dyma'ch cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni'r meini prawf a sut y gallwch ddod â'ch sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad i'r rôl. |
| 6. Gwybodaeth bellach | Gall rhai ceisiadau gynnwys cwestiynau ychwanegol er enghraifft ynglŷn â'r Gymraeg a phryd rydych chi'n disgwyl gorffen unrhyw astudiaethau rydych chi'n ymgymryd â nhw. |
| 7. Geirdaon | Mae angen geirdaon ar gyfer eich gweithgarwch dros y tair blynedd diwethaf gan gynnwys cyfnodau o gyflogaeth ac addysg amser llawn. |
| 8. Cyfle Cyfartal | Fel cyflogwr cyfle cyfartal defnyddir yr adran hon at ddibenion monitro. Bydd yr holl wybodaeth yn ddienw ac yn cael ei datgysylltu oddi wrth eich ffurflen gais. |

## Ysgrifennu cais llwyddiannus

Dwy ran hanfodol o'ch ffurflen gais yw'r adrannau hanes cyflogaeth a thystiolaeth ategol.

Dyma rywfaint o arweiniad ar sut i baratoi'r rhain yn llwyddiannus:

## Hanes cyflogaeth

Ar gyfer pob rôl rydych wedi ymgymryd â hi o fewn y tair blynedd diwethaf, bydd gofyn i chi ysgrifennu trosolwg o'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau – hyd at uchafswm o 500 o eiriau.

Cyn ysgrifennu'r trosolwg, cyfeiriwch at y disgrifiad swydd a'r fanyleb person a meddyliwch am sut mae'ch profiad yn berthnasol i'r rôl a hefyd yr hyn y mae'r cyflogwr yn chwilio amdano.

Meddyliwch hefyd am unrhyw gyflawniadau a sgiliau a ddefnyddiwyd yn eich cyflogaeth flaenorol a cheisiwch gynnwys y rhain yn y trosolwg gan y bydd y rhain yn helpu i ddangos eich addasrwydd ar gyfer y rôl.

Cofiwch mai pwrpas yr adran hon yw darparu trosolwg byr ac nid rhestru'ch holl ddyletswyddau a'ch cyfrifoldebau, felly dewiswch y rhai rydych chi'n teimlo sydd fwyaf perthnasol a defnyddiwch y rhain yn eich ymateb.

## Tystiolaeth ategol – y datganiad personol

Mae'r datganiad personol yn aml yn cael ei ystyried fel y rhan bwysicaf o'r cais am swydd – mae gennych 1500 o eiriau (uchafswm) i 'werthu'ch' hun a dangos pam mai chi yw'r ymgeisydd gorau ar gyfer y rôl.

Fel gyda'r adran hanes cyflogaeth, wrth ysgrifennu eich datganiad personol mae angen i chi fod yn gwbl barod, gan gyfeirio'n ôl at y disgrifiad swydd a manyleb y person, yn ogystal â chynnal ymchwil i'r sefydliad a'u gwerthoedd[2] i sicrhau eich bod yn gweddu i'r hyn y mae'r cyflogwr yn chwilio amdano.

Offeryn defnyddiol i'w ddefnyddio wrth geisio strwythuro eich datganiad personol yw'r dull rhyngosod (dull 'brechdan'), sydd wedi'i rannu'n dri segment:

**1. y dafell uchaf**
eich cyflwyniad

**2. y llenwad**
sut rydych yn bodloni'r meini prawf

**3. y dafell waelod**
eich datganiad i gloi

### 1. The top slice

Dyma'ch cyflwyniad – eich cyfle chi i dynnu sylw'r cyflogwr. Gan ddefnyddio'r meini prawf hanfodol a dymunol fel canllaw, meddyliwch am eich sgiliau allweddol, y cymwysterau a'r profiad mwyaf perthnasol a chyflwynwch eich hun mewn modd cryno. Er enghraifft:

[2] Gwerthoedd GIG Cymru: https://aagic.gig.cymru/gyrfaoedd/amdanom-ni/

"Mae gennyf brofiad o asesu, darparu a gwerthuso gofal cleifion gan ddefnyddio llwybrau y cytunwyd arnynt. Rwy'n nyrs iechyd meddwl graddedig gyda sgiliau cyfathrebu ardderchog. Yr wyf yn ymfalchïo yn fy ngallu i weithio ar fy mhen fy hun ac fel rhan o dimau amlddisgyblaethol, ac yn angerddol dros iechyd meddwl a darparu gofal o safon uchel.”

## 2. Y llenwad

Mae'r 'llenwad' yn ymwneud ag arddangos yr hyn sydd gennych i'w gynnig ac, yn bwysig, sut rydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol a dymunol y rôl.

Mae'r meini prawf hanfodol a dymunol a restrir o fewn manyleb person yn aml yn cael eu rhoi mewn tabl o dan adrannau allweddol y cyfeirir atynt yn aml fel 'priodoleddau'.

Gan ddefnyddio rôl Therapydd Lleferydd ac Iaith fel enghraifft, dyma enghraifft o'r meini prawf a restrir o fewn hysbyseb swydd wag[3]:

| Priodoleddau | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Cymwysterau a gwybodaeth | • Cymhwyster cydnabyddedig, gradd neu gymhwyster cyfwerth mewn therapi lleferydd ac iaith<br>• Wedi'i gofrestru gyda’r HCPC | • Gwybodaeth am ddeddfwriaeth/polisïau iechyd |
| Profiad a chyflawniadau | • Profiad clinigol | • Profiad o gefnogi newid o fewn gwasanaeth |
| Dawn a galluoedd (cryfderau, sgiliau a rhinweddau) | • Sgiliau rhyngbersonol rhagorol<br>• Gwybodaeth am ddulliau asesu | • Y gallu i siarad Cymraeg |
| Gwerthoedd | • Empathetig<br>• Hunan-ysgogol ac yn gallu ysgogi eraill | |
| Gwybodaeth berthnasol arall | • Y gallu i deithio | |

Mae defnyddio trefn y fanyleb person fel canllaw yn helpu i ddarparu llif naturiol ar gyfer eich datganiad personol. Gwneir hyn drwy drefn gronolegol drwy ddilyn trefn pob un o'r priodoleddau a'r meini prawf perthnasol er mwyn adeiladu eich datganiad. Er enghraifft, ymdrin â chymwysterau a gwybodaeth yn gyntaf drwy ddatgan bod gennych y cymhwyster perthnasol, yn ogystal â’r cofrestriad gofynnol. Mae defnyddio'r dull hwn yn helpu i sicrhau eich bod yn cwmpasu'r holl feini prawf a hefyd yn ei gwneud yn haws i'r darllenydd ei ddilyn.

Un o'r pethau pwysicaf i'w gofio wrth ysgrifennu eich datganiad personol yw bod angen i chi ddangos i'r cyflogwr eich bod yn gallu cyflawni'r rôl yn effeithiol – mae'n fwy na dim ond dweud y gallwch wneud rhywbeth. Er enghraifft, fel rhan o'r meini prawf hanfodol, gall cyflogwr fod yn chwilio am ymgeisydd i feddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol. Nid yw

[3] Gall meini prawf ar gyfer rolau fod yn wahanol ar draws sefydliadau ac felly gall y cymwysterau/profiad sydd eu hangen fod yn wahanol ar gyfer pob swydd wag.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

datgan yn syml eich bod yn bodloni'r meini prawf yn dangos i'r cyflogwr fod gennych y sgiliau hyn, er enghraifft:

☒ "Mae gen i sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol."

Yn hytrach, mae angen i chi ddarparu tystiolaeth a dangos sut y gallwch roi eich sgiliau ar waith, er enghraifft:

☑ "Drwy fy rôl fel cynorthwy-ydd marchnata, rwyf wedi datblygu sgiliau cyfathrebu rhagorol. O ddelio ag ymholiadau dros e-byst ac ysgrifennu adroddiadau, i gynrychioli fy nhîm mewn digwyddiadau lleol ac ymgysylltu ag ystod eang o bobl gan gynnwys plant ifainc a pherchnogion busnes, rwy'n ymfalchïo yn y ffaith fy mod yn gyfathrebwr effeithiol."

### 3. Y sleisen waelod

'Sleisen waelod' eich datganiad personol yw'r casgliad a lle bydd angen i chi grynhoi'n gadarnhaol yr hyn y gallwch ei gyflwyno i'r rôl. Mae hefyd yn gyfle i ddweud wrth y cyflogwr pam rydych chi eisiau'r rôl / eisiau gweithio i'r sefydliad – meddyliwch y tu hwnt i'r arian/teitl! Er enghraifft, gan ddefnyddio rôl deintydd:

"Rwy'n unigolyn brwdfrydig a dibynadwy sy'n gallu rheoli fy ngwaith yn hyderus a darparu gofal rhagorol i gleifion. Ar ôl cael fy ysbrydoli gan y gwaith o fewn gwasanaethau deintyddol cymunedol yn ystod fy lleoliadau clinigol a thrwy fy uchelgais gydol oes i fod yn ddeintydd, byddwn wrth fy modd yn cael y cyfle i gael fy ystyried ar gyfer y rôl yn eich practis".

## Awgrymiadau terfynol

Dyma rai awgrymiadau terfynol i'ch helpu i baratoi cais llwyddiannus am swydd:

1. gwiriwch y dyddiad cau
2. peidiwch â rhuthro eich cais – rhowch ddigon o amser i chi'ch hun ddangos pam mai chi yw'r ymgeisydd gorau ar gyfer y rôl
3. cofiwch ddarllen yr hysbyseb swydd, disgrifiad swydd a manyleb person cyn dechrau eich cais
4. treuliwch amser yn hunan-fyfyrio ar yr hyn y gallwch ei gyflwyno i'r rôl
5. defnyddiwch y fanyleb person fel rhestr wirio i wneud yn siŵr eich bod yn dangos y meini prawf yn eich ymatebion
6. darllenwch yr holl gyfarwyddiadau a chwestiynau yn ofalus
7. defnyddiwch yr un naws llais drwyddi draw
8. byddwch yn glir ac yn gryno gyda'ch ymatebion
9. gwiriwch nifer y geiriau – gall rhaglenni megis Word, Notepad neu offer ar-lein helpu i gyfrif geiriau a sicrhau nad yw'ch cais yn rhy hir
10. prawfddarllenwch eich cais i wirio nad oes unrhyw wallau sillafu neu ramadeg
11. lle bo'n bosibl, gofynnwch i rywun arall ddarllen eich cais ar eich rhan
12. gwiriwch yr holl adrannau i sicrhau eich bod wedi darparu'r holl wybodaeth ofynnol, bod yr holl wybodaeth yn gywir a'ch bod yn hapus â'ch ymatebion
13. cadarnhewch gyda'ch canolwyr y byddent yn hapus i ddarparu geirda
14. unwaith y byddwch wedi cyflwyno'ch cais, gwiriwch eich cyfrif Trac a'ch e-byst yn rheolaidd gan y bydd hysbysiadau ynghylch cyfweliadau ac asesiadau yn cael eu hychwanegu yma
15. cofiwch mai eich ffurflen gais chi ydyw felly arddangoswch eich hun a byddwch wych!